**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy’n fwy cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

Swyddogion Arweiniol: Andy Wilkins / Louise Davies / Roger Waters

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Gweler uchod

Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Chymunedau, Gwasanaethau Rheng Flaen

Dyddiad:

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu/Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | √ | ☐ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig? CYNNIG I YMESTYN GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF MEWN PERTHYNAS Â MESURAU RHEOLI CŴN

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Mae baw cŵn yn parhau i fod yn bryder sylweddol i'r Cyngor ac i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Mae baw cŵn yn annymunol ac yn berygl difrifol i iechyd pobl, yn enwedig iechyd plant.

Mae'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn wedi caniatáu i'r Cyngor gyflwyno ystod o gyfyngiadau rhesymol a chymesur ar ddefnyddio tir sydd ar agor i'r cyhoedd ledled y Fwrdeistref Sirol ac wedi helpu i reoli gweithgareddau niweidiol perchnogion cŵn anghyfrifol a chaniatáu i berchnogion cŵn cyfrifol barhau i gerdded eu cŵn heb gyfyngiadau gormodol.

Serch hynny, er gwaethaf cyflwyno'r Gorchmynion ym mis Hydref 2017 a'u hadnewyddu ym mis Hydref 2020, mae nifer fach o berchnogion cŵn o hyd sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn neu sydd ddim yn eu cadw nhw o dan reolaeth. Mae swyddogion felly'n ystyried ei bod hi'n hanfodol i'r gorchmynion, a fyddai fel arfer yn dod i ben ar 30 Medi 2023,

gael eu hadnewyddu am gyfnod pellach o dair blynedd er mwyn cynnal y manteision sylweddol y mae’r gorchmynion wedi’u cael mewn perthynas â baw cŵn a sicrhau bod pwerau priodol yn parhau i fod ar waith i ddelio â'r rheiny sy'n parhau i dorri'r cyfreithiau.

Mae modd gweld adroddiad y Cabinet yma (Eitem 6 ar yr Agenda)

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Wrth lunio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r prawf fel sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Mae'r prawf wedi'i gynllunio i fod yn eang a chanolbwyntio ar yr effaith y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chael ar ddioddefwyr a chymunedau. Mae modd i'r Cyngor wneud GDMC os yw’n fodlon ar sail resymol bod y gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni (neu sy’n debygol o gael eu cyflawni) mewn man cyhoeddus:

- wedi cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd
- pobl yn yr ardal leol
- yn cael eu cyflawni'n barhaus, neu'n debygol o barhau
- yn afresymol, neu'n debygol o fod, ac
- yn cyfiawnhau cyfyngiadau'r gorchymyn.

Gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn i gyfyngu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus mewn mannau cyhoeddus. Nod y Gorchymyn yw atal neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i berchnogion cŵn anghyfrifol.

1.e) Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

- Defnyddwyr Gwasanaeth √
- Gweithwyr √ (yng nghyd-destun y swyddogion hynny sy'n gweinyddu ac yn gorfodi'r gorchmynion Rheoli Cŵn
- Y gymuned yn gyffredinol √

**ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?**

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **<u>Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig;</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn)* | Cadarnhaol | Mae'r GDMC yn cael ei ystyried yn beth sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ar gyfer pob nodwedd warchodedig sy'n ymwneud ag oedran. Mae pob grŵp oedran yn elwa o gael gwell mesurau rheoli ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp oedran er mwyn mwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy'n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus.<br><br>Mae gwahardd cŵn o gaeau chwaraeon wedi'u marcio a mannau chwarae o fudd i blant, pobl ifainc ac oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon gan ei fod e'n helpu i ddarparu man glân a diogel i gymryd rhan mewn chwaraeon. | Derbyniodd y Cyngor adborth yn dilyn ymgynghoriad cyn cyflwyno'r Gorchmynion Gwarchod Cŵn Rheoli Cŵn yn 2017 a phan gafodd ei adnewyddu yn 2020. Amlygodd yr adborth fod cefnogaeth aruthrol ymysg y cyhoedd i gyflwyno'r gorchmynion, y gwaharddiadau a'r gofynion mewn perthynas â rheoli cŵn. Roedd dros 90% o ymatebwyr yn cefnogi dull arfaethedig y Cyngor o ddelio â baw cŵn ac yn cefnogi gwahardd baw cŵn.<br><br>Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi (yn Saesneg) gan Cadwch Gymru'n Daclus o'r enw 'An Analysis of Local Environmental Quality in |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Negyddol (dros 65 oed) | Efallai y bydd gan bobl dros 65 oed gyfyngiadau corfforol (llai o symudedd) neu namau corfforol sydd o bosibl yn lleihau eu gallu nhw i gael gwared ar faw ci a'u gallu i atal ci ar dennyn, ac mae'n bosibl y byddai'r gorchymyn yn eu gorfodi nhw i deithio ymhellach i gerdded eu ci (ar droed neu mewn cerbyd) – Swyddogion Gorfodi felly byddai angen barnu achosion unigol a chael hyfforddiant mewn perthynas â hyn. | RCT 2022-23' yn dangos bod presenoldeb baw cŵn ar strydoedd Rhondda Cynon Taf wedi parhau'n gyson (10.9%) o'i gymharu â'r cyfnod y cafodd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ei adnewyddu diwethaf yn 2020. Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod cofnod 2021-22 yn dangos presenoldeb baw cŵn ar 8.9% o strydoedd – felly mae'r adroddiad diweddaraf yn anffodus yn dangos cynnydd. Cyn cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn wreiddiol yn 2017, roedd y ffigur yma tua 18%. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod achosion o faw cŵn yn gyffredinol wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r adroddiad yma felly'n dangos, ers ei gyflwyno yn 2017, fod y GDMC wedi arwain at leihad ym mhresenoldeb baw cŵn ar strydoedd Rhondda Cynon Taf ond mae hefyd yn amlygu ei fod yn broblem sy'n parhau.<br><br>Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth ychwanegol o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn (ai peidio). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Cadarnhaol<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Negyddol | Mae disgwyl y bydd Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud ag anabledd. Bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp oedran, er mwyn iddyn nhw fwynhau defnyddio mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn ac yn cefnogi gorfodaeth ragweithiol yn ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus.<br>Fydd dim gorfodi ar unrhyw Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn ymwneud â rheoli cŵn yn digwydd os oes anabledd gydag unigolyn sy'n effeithio ar ei symudedd, ei fedrusrwydd â'i ddwylo, ei allu i gydsymud y corff neu ei allu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan elusen gofrestredig ac yn gi mae'r person yn dibynnu arno am gymorth.<br><br>• Anallu i gael gwared ar faw ci<br>• Llai o allu i atal ci ar dennyn<br>• Anallu i wybod am gyfyngiadau oherwydd nam ar y synhwyrau neu nam gwybyddol<br>• Llai o allu i gyfathrebu oherwydd nam ar y clyw neu nam lleferydd<br>• Anallu i ddeall cyfyngiadau oherwydd nam meddyliol | Mae gorchmynion a deddfwriaeth yn ymwneud â rheoli cŵn a'u baw yn caniatáu eithriadau mewn achosion penodol ar gyfer pobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall, pobl fyddar ac aelodau eraill o'r cyhoedd ag anableddau sy'n defnyddio cŵn cymorth<br>hyfforddedig. Bydd angen ystyried sut bydd yr eithriadau yma'n gweithio'n ymarferol<br>Eithriadau i Bobl Anabl<br>Dyw mesurau'r gorchymyn yma ddim yn berthnasol i berson sydd:<br>(a) wedi ei gofrestru'n rhannol ddall neu'n ddall, mewn cofrestr wedi'i llunio yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu<br>(b) wedi ei gofrestru fel person â "nam ar ei olwg", "nam difrifol ar ei olwg" neu "â namau ar ei olwg a'i glyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar ei fywyd o ddydd i ddydd", mewn cofrestr wedi'i llunio yn unol ag Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;<br>(c) ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei fedrusrwydd â'i ddwylo, ei allu i gydsymud y corff neu symud gwrthrychau bob dydd, gyda chi y mae'n dibynnu arno am gymorth sydd wedi'i hyfforddi gan elusen ragnodedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dyw mesur eithrio cŵn y gorchymyn yma ddim yn berthnasol i gi y mae person yn dibynnu arno am gymorth sydd wedi cael hyfforddiant gan elusen gofrestredig i'w gynorthwyo. Fodd bynnag, mae disgwyl i bob cam rhesymol gael ei gymryd i atal cŵn cymorth rhag mynd ar gaeau chwaraeon wedi'u marcio.<br>Pan mae gweithgareddau chwaraeon yn cael eu cynnal ar y caeau, dylai pobl gadw cŵn dan reolaeth a pheidio â chaniatáu iddyn nhw fynd ar y cae wedi'i farcio.<br>At ddibenion y Gorchymyn yma, ystyr "anabledd" yw cyflwr sy'n cyfateb i'r diffiniad o anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ystyr "person anabl" yw person ag un neu ragor o'r anableddau yma.<br><br>Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth ychwanegol o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud ag ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy'n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

| Dysgu beth yw nodweddion gwarchodedig; | Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig? | Nodwch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma? |
|---|---|---|---|
| **Priodasau a Phartneriaethau Sifil** *(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp i fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi gorfodi rhagweithiol mewn perthynas â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Cadarnhaol | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth. Bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi gorfodi | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Negyddol | rhagweithiol yn ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus.<br>Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion â phroblemau symudedd yn ymwneud â'u beichiogrwydd ac felly bydd angen i Swyddogion Gorfodi ystyried achosion unigol.<br>Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob Swyddog ag awdurdod dirprwyedig i roi dirwyon. | |
| **Hil**<br>*(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Cadarnhaol<br><br><br><br><br>Negyddol | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â hil. Bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol yn ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus.<br><br>• Dealltwriaeth o'r Gymraeg/Saesneg ysgrifenedig ar arwyddion<br>• Deall swyddogion gorfodi mewn sgwrs<br>• Deall cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig pan fydd un yn cael ei roi | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â chrefydd. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy’n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |
| **Rhyw**<br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy’n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>*(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar bobl â nodweddion | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwarchodedig yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy’n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar gymuned y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy'n ymwneud â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |
| **Cynhalwyr**<br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Niwtral | Mae disgwyl i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn gael effaith niwtral ar gynhalwyr. Fodd bynnag, bydd y grŵp yma'n elwa o gael gwell mesurau rheoli mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn. Bydd hyn o fudd i bob grŵp fwynhau mannau cyhoeddus gyda llai o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â rheoli cŵn a chefnogi camau gorfodi rhagweithiol sy'n ymwneud | Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yma cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ai peidio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | â baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. | |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad? Ydw √ * ☐ Nac ydw

***DYMA FERSIWN CYN YR YMGYNGHORIAD O'R ASESIAD O'R EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD AC FELLY MAE WEDI'I GYFLWYNO AR FFURF DRAFFT I HELPU'R BROSES YMGYNGHORI. BYDD E'N CAEL EI ADNEWYDDU A'I DDIWEDDARU GAN DDEFNYDDIO DATA YCHWANEGOL, TYSTIOLAETH AC ADBORTH WEDI'U DERBYN TRWY'R BROSES YMGYNGHORI A GAN YR HOLL RHANDDEILIAID.**

Enw: Andy Wilkins

Swydd: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Dyddiad: 29 Mehefin 2023

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.
NODWCH – mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 – Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD GYMDEITHASOL-ECONOMAIDD (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG) – DYW HYN DDIM YN BERTHNASOL I'R CYNNIG YMA**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm** *(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Cyfoeth Isel a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Amddifadedd Materol** *(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

**ADRAN 4 – ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN**

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

**CAMAU LLINIAROL CYFFREDINOL**

- Rhoi gwybod i'r gymuned am y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn a sut y byddan nhw'n cael eu rheoli.
- Hyrwyddo ac amlygu ymddygiadau perchnogion cŵn da.
- Gosod arwyddion clir yn rhoi gwybod am y mesurau rheoli.
- Cyhoeddi gwybodaeth yn ailadrodd negeseuon ynglŷn â'r mesurau rheoli yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau arbenigol a rhoi gwybodaeth dda.

**PROBLEM**

- Does dim modd i berchennog ci glirio baw na chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiad arall oherwydd oedran/diffyg symudedd/camau olaf beichiogrwydd
- Mae gan berchennog ci broblemau â'i synhwyrau neu'i symudedd
- Mae gan y perchennog gi cymorth â lifrai/dim lifrau a does dim modd iddo glirio baw na chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiad arall

**CAMAU I'W CYMRYD/WEDI'U CYMRYD**

Mae swyddogion yn cael hyfforddiant ar yr agwedd yma ar orfodi a byddan nhw'n parhau i wneud hynny.

Mae modd apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb Benodedig a chyflwyno gwybodaeth am amgylchiadau sy'n lleihau bai. Mae canlyniadau apeliadau yn cael eu penderfynu gan y rheolwr gwasanaeth.

Yn achos cŵn cymorth â llifrai, dyw perchennog y ci ddim yn cael ei herio gan y swyddog gorfodi ond efallai mi fydd y swyddog yn cynnig cymorth.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Dd/B

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff.

I'W GWBLHAU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

I'W GWBLHAU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol?

I'W GWBLHAU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU – I'W CHWBLHAU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD**

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

**ADRAN 6 – ADOLYGU – I'W CHWBLHAU AR ÔL YMGYNGHORIAD**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rhondda-cynon-taf.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

## ADRAN 6 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

Mae'n rhaid bod modd i'r Cyngor ddangos bod Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) yn ymateb angenrheidiol a chymesur i'r problemau sydd wedi'u hachosi gan weithgareddau cŵn a'r rheiny sy'n gyfrifol amdanyn nhw. Mae'n rhaid i'r Cyngor gydbwyso buddiannau'r rhai sy'n gyfrifol am gŵn yn erbyn buddiannau'r rhai y mae gweithgareddau cŵn yn effeithio arnyn nhw. Rhaid i hyn gymryd i ystyriaeth yr angen i bobl, yn enwedig plant, gael mynediad i fannau heb gŵn a mannau lle mae cŵn yn cael eu cadw o dan reolaeth lem, a'r angen i'r rheiny sy'n gyfrifol am gŵn gael mynediad i fannau lle mae modd iddyn nhw gerdded eu cŵn heb gyfyngiadau gormodol.

Wrth ddatblygu'r GDMC gwreiddiol, cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal i sicrhau bod:

- Y Cyngor yn bodloni gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; a bod
- Sylw addas wedi ei roi i effaith debygol y penderfyniad ar faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu.

Fyddai mesurau'r Gorchmynion Rheoli Cŵn arfaethedig ddim yn berthnasol i berson sydd:

(i) ar gofrestr o bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg, sydd wedi'i llunio yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948;
(ii) ar gofrestr o bobl sydd â "nam ar eu golwg", "nam difrifol ar eu golwg" neu "nam ar eu golwg ac ar eu clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd", sydd wedi'i llunio yn unol ag Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
(iii) Mae ganddo anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei fedrusrwydd llaw, ei allu i gydsymud y corff, ei allu i godi neu gario gwrthrychau pob dydd, neu ei allu i'w symud mewn ffordd arall, i'r graddau nad yw'n rhesymol disgwyl iddo gael gwared ar y baw; neu
(iv) bod ganddo ryw anabledd arall sy'n golygu nad yw'n rhesymol i ddisgwyl iddo symud y baw.

Fyddai mesurau'r gorchmynion yma ddim yn berthnasol i gi sydd wedi cael hyfforddiant gan elusen gofrestredig i gynorthwyo person ag anabledd, ac mae person anabl yn dibynnu arno am gymorth.

At ddibenion y gorchmynion, ystyr 'anabledd' yw cyflwr sy'n cyfateb i'r diffiniad o anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fydd dim byd yn y Gorchymyn yma'n berthnasol i weithgareddau ci gwaith tra bod y ci hwnnw'n gweithio. Mae hyn yn cynnwys cŵn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni gwaith chwilio ac achub mewn argyfwng, gwaith gorfodi'r gyfraith, gwaith Lluoedd Arfog ei Mawrhydi, a gwaith cŵn ffermydd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer corlannu neu yrru anifeiliaid.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd drafft yma wedi nodi efallai bydd rhai effeithiau negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig

pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo ynghyd â chamau lleddfu y bydd modd eu rhoi ar waith neu sydd eisoes ar waith i leddfu unrhyw effeithiau negyddol. Bydd yr ymarfer yma'n cael ei ddiweddaru gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad a data perthnasol eraill i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb terfynol cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ynghylch ymestyn y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn.

**ADRAN 7 – AWDURDODIADAU – I'W CHWBLHAU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD**

Swyddogion Arweiniol:

Enw: Andy Wilkins / Louise Davies / Roger Waters

Swydd: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol / Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned / Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen

Dyddiad:

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau ☐
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw:

Swydd:

Dyddiad:

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.